

Datblygiad y Maes



Datblygiad y maes Polisi a Chynllunio Iaith

Mae gwreiddiau polisi a chynllunio iaith yn ymestyn y tu hwnt i'r 1950au, ond datblygodd y maes yn fwy amlwg ac yn fwy systematig tua'r adeg honno.

Datblygodd Polisi a Chynllunio Iaith fel maes astudio yn sgil gwahanol ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a gwleidyddol.

1950au-1960au

- Cafwyd enghreifftiau hanesyddol o gynllunio iaith yn sgil:
 - Cipio a meddiannu tiriogaethau drwy ryfela
 - Nifer o wledydd yn dod yn annibynnol yng nghanol yr 20fed ganrif, gan arwain at yr angen i sefydlu hunaniaeth genedlaethol a strwythurau llywodraethu
 - Poblogaethau yn mudo o ganlyniad i drychinebau naturiol ac anrhefn sifil
- Haugen, 1959: **Cynllunio Corpws**
- Safoni iaith, gramadeg, geiriaduron, orgraff
- Iaith yn annibynnol - ddim o reidrwydd yn gysylltiedig â phobl/heb ei gymdeithasoli

- **Kloss, 1969 – Cynllunio Corpws a Statws**
- Kloss oedd y cyntaf i sôn am deipoleg cynllunio statws a chynllunio corpws
- Maes yn dechrau ffurfioli
- Neustupny, 1974 – Cysylltiad rhwng polisi iaith a meithrin a datblygu iaith (cultivation)

- Cyfnod o edrych yn feirniadol ar y maes polisi a chynllunio iaith
- Roedd ysgolheigion a chynllunwyr iaith yn beirniadu dulliau, damcaniaethau ac arferion y degawdau blaenorol
- Beirniadwyd y maes polisi cynllunio iaith o ran y syniadaeth o'r brig i lawr (top down/macro), lle gwnaed penderfyniadau yn aml gan awdurdodau heb ystyried yn ddigonol amrywiaeth ieithyddol a dewisiadau cymunedau lleol
- Cooper, 1989: **Cynllunio Caffael** (Addysg a throsglwyddiad iaith)
- Mwy o waith ar ieithoedd lleiafrifol
- Ffocws ar gynnal ac adfer iaith. Fishman – dylanwad ar Gymru

- Beirniadol o'r modelau a ddatblygwyd yn y gorffennol
- Tollefson, 1991. Trobwynt yn y cyfnod. '*Planning Language, Planning Inequality*', 1991.
- Tollefson o'r farn nad yw addysg yn niwtral. Mae'n dadlau nad yw systemau addysgol, gan gynnwys polisiau addysg iaith, yn niwtral ond wedi'u hymgorffori o fewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol. Sôn am rym ac anghyfartaledd.
- O'r 90au ymlaen pwyslais ar hawliau
- 1996 – *Universal Declaration of Linguistic Rights*
- Cynllunio a pholisi iaith yn symud i fod yn ideolegol a gwleidyddol.

1990au ymlaen hyd heddiw

- Dros y degawdau ers diwedd 1950au, gwelwyd ymlediad cynllunio iaith o'r macro i'r micro
- Cafwyd mwy o bwyslais ar 'asiantaeth' (agency) neu 'weithredu gan unigolion/rôl yr unigolyn'.
- Ceir mwy am hyn – sef perthynas iaith a chymdeithas/cymdeithasoli iaith yn sesiwn 24 Tachwedd.
- Pwyslais ar hawliau (ystyriwch gyd-destun Cymru) a thechnoleg

- Kaplan, R. B., & Baldauf, R. B. (1997). *Language planning: from practice to theory*. Multilingual Matters (pennod 1) – rhennir copi gyda chi
- Hornberger, N. (2006) 'Frameworks and Models in Language Policy and Planning', yn Ricento, Thomas. (2006). *An introduction to language policy : theory and method*. Blackwell. – copi ar-lein (tt. 24-37).